CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2007 Rhif  (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch cyrff penodol y mae Rheoliadau 2005 yn gymwys iddynt ac ynghylch arferion priodol o ran cyfrifon gan gyfeirio at adran 21(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae rheoliad 2 yn dileu rhai o'r darpariaethau a restrir yn rheoliad 7(1) o Reoliadau 2005 ac mae'n ychwanegu cyfeiriad at gronfa bensiwn y diffoddwyr tân.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L

# 2007 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007

*Wedi'u gwneud* *2007*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 39 a 58 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), ac ar ôl ymghynghori yn unol ag adran 39(2) o'r Ddeddf honno ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol y mae'n ymddangos iddo eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff o gyfrifwyr y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn -

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2007, a deuant i rym ar 1 Mawrth 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005**

**2.** Yn lle paragraff (1) o Reoliad 7 (Datganiad o gyfrifon) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005(**2**) rhodder—

"(1) Rhaid i gorff y mae paragraffau (3) a (4) yn gymwys iddo baratoi yn unol ag arferion priodol o ran cyfrifon ddatganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn, gyda rhagair esboniadol, y mae'n rhaid iddo gynnwys y datganiadau cyfrifyddu canlynol hynny sy'n berthnasol i swyddogaethau'r corff—

(a) cyfrif refeniw tai;

---

(**1**) 2004 p.23
(**2**) O.S. 2005/368 (Cy.34)

(b) cronfa bensiwn diffoddwyr tân, os oes un;

(c) unrhyw ddatganiadau eraill sy'n ymwneud â phob cronfa y mae'n ofynnol i'r corff o dan unrhyw ddarpariaeth statudol gadw cyfrif ar wahân ynglŷn â hi.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Dyddiad

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 1998 p.38